



Ysgol Tregarth



Hapus yn ein Dysgu



Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4PG

Ffôn: 01248 600735

Ysgrifenyddes: cerihalliday@gwynedd.llyw.cymru

Pennaeth: LliwenHafJones@gwynedd.llyw.cymru

www.ysgoltregarth.org

Trydar/Twitter-[@ysgoltregarth@twitter](https://twitter.com/ysgoltregarth)

Pennaeth: Mrs Lliwen Haf Jones B.Add

Pennaeth Cynorthwyol: Mrs Caryl Evans
Cadierydd y Llywodraethwyr: Mr Bleddyn Jones
Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Hywel Parry

Cyfeiriad yr ysgol:
Ysgol Tregarth, Tregarth, Bangor, Gwynedd. LL57 4PG.

Rhif Ffôn yr ysgol:
(01248) 600735

e-bost ysgrifenyddes yr ysgol: cerihalliday@gwynedd.llyw.cymru

e-bost Pennaeth yr ysgol: LliwenHafJones@gwynedd.llyw.cymru

Gwefan yr Ysgol:
www.ysgoltregarth.org



Pennaeth: Mrs Lliwen Haf Jones B.Add
Pennaeth Cynorthwyol: Mrs Caryl Evans
Cadierydd y Llywodraethwyr: Mr Bleddyn Jones
Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Hywel Parry

Cyfeiriad yr ysgol:
Ysgol Tregarth, Tregarth, Bangor, Gwynedd. LL57 4PG.

Rhif Ffôn yr ysgol:
(01248) 600735
e-bost ysgrifenyddes yr ysgol: cerihalliday@gwynedd.llyw.cymru
e-bost Pennaeth yr ysgol: LliwenHafJones@gwynedd.llyw.cymru


Gwefan yr Ysgol:
www.ysgoltregarth.org

STATWS YR YSGOL:

Ysgol gynradd dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yw hon. Mae'n ysgol cyfrwng Cymraeg, gyd-addysgol. Nôd yr ysgol yw gwasanaethu'r gymuned trwy ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf. Mae'n annog dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocâd ffydd ac yn hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol trwy'r profiad mae'n ei gynnig i'w holl ddisgyblion. Mae Ysgol Tregarth yn cael ei chynnal gan Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd.

LLEOLIAD:

Mae Ysgol Tregarth wedi ei lleoli ym mhentref Tregarth ar gyrion Bethesda ac mae'n hawdd ei chyrraedd o ddinas Bangor. Os ydych yn gyrru i mewn i'r pentref, cymrwch sylw o'r cyfyngiadau o 30 milltir yr awr os gwelwch yn dda. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar ffordd Ffrwd Galed.



YMWELD Â'R YSGOL

Mae croeso i chwi alw unrhyw amser ond byddwch gystal â gwneud apwyntiad gyda'r Pennaeth, Gellir gwneud trefniadau drwy gysylltu gyda'r ysgrifenyddes ar 01248 600 735. Rydym i gyd yn cydweithio er lles a hapusrwydd pob plentyn yn yr ysgol.



Esgob Bangor Bishop of Bangor

Y Gwir Parchg - The Right Revd Andrew John

Annwyl Riant / Warchodwr,

Cafodd mwy nag un ym mhob pump o ysgolion Cymru a Lloegr eu sefydlu gan yr Eglwys Anglicanaidd. Mae'r Eglwys yn parhau i ymwneud ag addysg galles plant mewn ysgolion. Yn Esgobaeth Bangor mae pedair ar bymtheg o ysgolion eglwysig, sy'n rhan o deulu o ysgolion gwirfoddol yma ac yn esgobaethau eraill Cymru.

Yn eu hymwneud ag addysgu plant mae gan ysgolion eglwysig nodwedd arbennig; mae'r ymdeimlad eu bod yn rhan o deulu mwy yn eu hatgoffa o nôdyr Eglwys wrth eu sefydlu. Bwriadwyd yr ysgolion hyn i wasanaethu eu cymunedau lleol, nid y teuluoedd Cristnogol sydd yn anfon eu plant iddynt yn unig. Mae llywodraethwyr a staff ysgolion eglwysig yn gobeithio y bydd pawb sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r ysgolion hynny yn teimlo eu bod yn aelodau o gymuned addysgiadol sydd yn gofalu'n gariadus am bob aelod ohoni.

Mae llywodraethwyr a staff ysgolion eglwysig hefyd yn argyhoeddedig bod cyfraniad rhieni/gwarchodwyr at addysg eu plant yn hanfodol. Cydnabyddir bod cydweithrediad adeiladol rhwng yr athrawon a'r rhieni/gwarchodwyr yn gymorth i blant ddatblygu yn yr ysgol.

Mae ysgolion eglwysig yn elwa ar gefnogaeth yr Awdurdod Addysg Lleol ac y mae'r Esgobaeth hon yn gwerthfawrogi'r bartneriaeth sydd rhyngddi ag Awdurdodau Addysg Siroedd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Yn naturiol, mae Adran Addysg yr Esgobaeth, trwy ei Swyddogion Addysg ac Ymwelwyr yr Esgob hefyd yn cynghori ysgolion eglwysig. Mae gan ysgolion eglwysig ddauneu fwy o lywodraethwyr gwaddoledig sydd yn cael eu penodi gan yr Eglwys, ac un o'u prif ddyletswyddau ar y Corff Llywodraethol yw gofalu bod ethos Cristnogol yr ysgol yn cael ei warchod.

Gobeithio y bydd eich plentyn/plant yn hapus yn yr ysgol hon ac yndarganfod bod yma gymuned ofalgar a chyfeillgar fydd yn ei alluogi/eu galluogi i dyfu a blodeuo. Gobeithio y bydd ef/hi/nhw hefyd yn yr un modd, yn gallu cyfrannu at fywyd yr ysgol.

Yr eiddoch yn gywir

**Y Gwir Barchedig Andrew John
Esgob Bangor**

Tŷ'r Esgob, Ffordd Garth Uchaf, Bangor, Gwynedd,
bishop.bangor@churchinwales.org.uk



Polisi Mynediad

Mae Ysgol Tregarth yn dilyn polisi Awdurdod Addysg Gwynedd.

Caiff plant **fynychu'r ysgol** yn **rhan-amser** o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Caiff plant **fynychu'r ysgol** yn **llawn-amser** o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Yr Awdurdod Addysg sydd yn rhoi caniatâd mynediad i blant y dalgylch a phlant all-ddalgylch. Dylai'r rhai hynny sy'n dymuno i'w plant gael eu cofrestru, gysylltu â'r Awdurdod Addysg yn uniongyrchol. Rhaid derbyn ceisiadau cyn diwedd Ebrill gan ddilyn canllawiau'r Awdurdod Addysg. Gwahoddir rhieni sy'n ystyried anfon eu plant i'r ysgol i gysylltu â'r Pennaeth er mwyn trefnu ymweliad a thrafodaeth ragarweiniol. Gwneir trefniadau i'r plant ddod i'r ysgol am fore yn ystod tymor yr Haf a gwahoddir rhieni i fynychu cyfarfod rhagarweiniol ag aelodau o'r staff . Rhoddir copi o Lawlyfr yr Ysgol i rieni.

Mae darpariaeth ar gyfer blant dwy a hanner mlwydd oed ar gael yn y Cylch Meithrin sy'n cael ei gynnal yng Nghanolfan Gymunedol Tregarth gan y Mudiad Meithrin.

Amseroedd agor y cylch Meithrin

8.30 yb – 1yp

Manylion cyswllt

Arweinydd: Dana Roberts

01248 602802

cylchmeithrintregarth@yahoo.co.uk

Amseroedd dosbarth Meithrin yr ysgol

1 yp – 3 yp

Arwyddair yr Ysgol yw: Hapus yn ein dysgu

Ethos a Gwerthoedd:

Nôd yr Ysgol Gynradd hon yw sicrhau addysg o'r ansawdd orau posib i bob plentyn yn unol â'u hoedran, eu gallu a'u diddordebau gan fabwysiadu a gweithredu strategaethau arloesol er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial personol eu hunain. Dymunwn iddynt dyfu yn bersonoliaethau llawn, datblygu ac ymarfer eu holl ddoniau a chymhwyso eu hunain i fod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog.

Mae'r gwerthoedd Cristnogol megis caredigrwydd, goddefgarwch a maddeuant yn rhan annatod o brofiad a gweithgarwch dyddiol pob disgybl. Ein nôd yw meithrin y gwerthoedd hyn ar draws ein cwricwlwm a chymuned yr ysgol, er mwyn galluogi'r disgyblion i gysylltu'r gwerthoedd a'n cymeriad Cristnogol â bywyd yn gyffredinol.

Gosodir sylfaen gadarn sy'n paratoi'r disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol a dylanwadol gan ddangos parch at y byd o'u cwrpas a phawb sy'n byw ynddi.

Drwy fod yn 'Hapus yn ein Dysgu' byddwn yn llwyddo.

Ein dulliau o gyflawni hyn yw:

1. Creu a chynnal amgylchedd a fydd yn hyrwyddo hapusrwydd y disgyblion, yn ogystal â'u datblygiad cyflawn fel unigolyn.
2. Creu amgylchedd o fewn yr ysgol a fydd yn ysgogi dysgu ac yn meithrin sgiliau meddwl, adfyrfyrio a gwerthfawrogi pob dim sydd gennym.
3. Rhoi cyfle i ddatblygu sgiliau a diddordebau plant ar draws ystod eang o feysydd.
4. Trosglwyddo addysg gadarn un unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn ogystal ag adnabod a darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
5. Rhoi pob cyfle i blant ddatblygu eu doniau, eu talentau a'u diddordebau; i ddod i adnabod eu hunain fel unigolion.
7. Hyrwyddo hunan-ddisgyblaeth, hunan-barch a hunan-hyder y disgyblion.
8. Hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o natur ac hanes eu cymdeithas, o'u rôl a chyfraniad i'r gymdeithas fel dinasyddion y Cymru gyfoes yn ogystal â'r byd eang.
9. Hyrwyddo balchder yn y plant tuag at eu hardal a'u gwlad a'i natur ddwyieithog a datblygu ynddynt y dyhead i fod yn bobl ofalgar am eu hunain, eu hamgylchfyd a phobl eraill.
10. Meithrin dealltwriaeth o werthoedd Cristnogol ymhlith y disgyblion fel sgil bywyd ar gyfer gweddill eu hoes.
11. Creu sefydliad y gellir gweithredu amcanion cyffredinol yr Awdurdod Addysg.
- 12.. Annog a chefnogi staff dysgu a chynorthwyol i ddatblygu i'w llawn botensial proffesiynol.

Mae tri rheol bwysig i ni yn yr ysgol :



Mae'r disgyblion yn llwyr ymwybodol o'r egwyddorion hyn ac yn eu gweithredu yn ddyddiol.

Gwyliau Ysgol/Tymor 2021-2022



GWYLIAU YSGOL 2021-2022

TYMOR:

Hydref 2021 1 Medi 2021 - 22 Rhagfyr 2021 -
Gwanwyn 2022 6 Ionawr 2022 - 8 Ebrill 2022
Haf 2022 25 Ebrill 2022 - 20 Gorffennaf 2022

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Iau, 2 Medi, 2021.

GWYLIAU:

25 - 29 Hydref 2021	(Hanner-Tymor)
23 Rhagfyr 2021 - 5 Ionawr 2022	(Gwyliau'r Nadolig)
21 - 25 Chwefror 2022	(Hanner-Tymor)
11 - 22 Ebrill 2022	(Gwyliau'r Pasg)
2 Mai 2022	(Cala'n Mai)
30 Mai - 3 Mehefin 2022	(Hanner-Tymor)
21 Gorffennaf - 31 Awst 2022	(Gwyliau'r Haf)

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Iau, 1 Medi, 2022 i athrawon, a dydd Gwener, 2 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau).

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

MEDI 2021	22
HYDREF 2021	16
TACHWEDD 2021	22
RHAGFYR 2021	16
IONAWR 2022	18
CHWFROR 2022	15
MAWRTH 2022	23
EBRILL 2022	11
MAI 2022	19
MEHEFIN 2022	19
GORFFENNAF 2022	14

	195

1 Medi 2021 - Diwrnod dan Reolaeth Ysgol
5 Diwrnod Hyfforddiant

Daw hyn â'r nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 189

Bydd ysgolion sy'n cau ar gyfer etholiadau yn agor am y nifer hynny o ddyddiau ar ddiwedd Tymor yr Haf.

CWRICWLWM YR YSGOL

Nôd yr ysgol yw creu awyrgylch hapus ble gall athrawon a phlant gydweithio gyda chyd-ymddiriedaeth a pharch, gan sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd eu llawn botensial.

Y Cwricwlwm Newydd i Gymru: Mae y cwricwlwm newydd yn pwysleisio ar roi i bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd. Mae'n datblygu eu gallu i ddysgu sgiliau newydd a defnyddio'u gwybodaeth bynciol yn fwy effeithiol ac mewn ffordd fwy creadigol. Wrth i'r byd newid o'u cwmpas, byddant yn gallu addasu, a hynny mewn ffordd gadarnhaol.

Y Pedwar Diben: Bydd y Pedwar diben wrth wraidd ein Cwricwlwm newydd. Y rhain fydd y man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad ar y cynnwys a'r profiadau a gaiff eu datblygu'n rhan o'r cwricwlwm.



Ein nôd yw i gefnogi plant i fod yn

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

Bydd y cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaP) sef:

- Y Celfyddydau mynegiannol.
- Iechyd a lles.
- Dyniaethau (gan gynnwys addysg grefyddol a ddylai barhau'n orfodol hyd nes y bydd dysgwyr yn 16 oed).
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (gan gynnwys y Gymraeg, a ddylai barhau'n orfodol hyd nes y bydd dysgwyr yn 16 oed, ac ieithoedd tramor modern).
- Mathemateg a rhifedd.
- Gwyddoniaeth a thechnoleg (gan gynnwys cyfrifiadureg).

Tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd

Bydd hefyd yn cynnwys tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Cymhwysedd digidol.

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys.

Oddi mewn i'r drefn yma fe fydd athrawon yn rhoi ystyriaeth i allu pob plentyn. Byddant yn paratoi'n wahaniaethol er mwyn sicrhau datblygiad pob unigolyn. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ymroddiad i'r gwaith fe ddefnyddir amrywiaeth o ddulliau dysgu megis:- Dysgu Unigol, Dysgu Dosbarth a Dysgu Grwp.

Atgyfnerthir y dysgu yn rheolaidd trwy sicrhau profiadau uniongyrchol ar ffurf ymweliadau addysgol.

DIWRNOD YSGOL

<u>Y MEITHRIN</u>	<u>DERBYN, BLWYDDYN 1, 2</u>	<u>BLWYDDYN 3,4,5 A 6</u>
1yp - 3yp	08:50 - 10:30 yb SESIWN 1	08:50 - 10:30yb SESIWN 1
	10:30 - 10:45 yb Amser chwarae dan oruchwyliaeth	10:30 - 10:45yb Amser chwarae dan oruchwyliaeth
	10:45 - 12:00 yb SESIWN 2	10:45 - 12:00yp SESIWN 2
	12:30 - 1:00 yp Amser chwarae dan oruchwyliaeth	12:30 - 1:00yp Amser cinio dan oruchwyliaeth
	1:00 yp - 2:20 yp SESIWN 3	1:00 - 2:10yp SESIWN 3
	2:20 - 2:30yp Amser chwarae dan oruchwyliaeth	2:10 - 2:20 yp Amser chwarae dan oruchwyliaeth
	2:30 - 3:00yp SESIWN 4	2:20 - 3:30 SESIWN 4

CLWB BRECWAST/CLWB GOFAL



Daw'r ysgol yn gyfrifol am eich plentyn o 8:40 yb ymlaen. Ni ddylid anfon plant, os oes modd, i'r ysgol cyn yr amser hwnnw, oni bai eu bod yn mynychu'r Clwb Brecwast rhwng 8:00yb ac 8:50yb.

Manylion y Clwb Brecwast a Clwb Gofal

Mae clwb gofal ar gael yn yr ysgol rhwng 8:00yb hyd at 8:30yb am y gost o £1 y plentyn. Yna, mae y clwb brecwast am ddim yn cychwyn am 8:30yb hyd at 8:50yb. Bydd y plant yn derbyn tôst brown, grawnfwyd amrywiol, a diod. Mae'n hanfodol bwysig eich bod yn archebu lle ar gyfer eich plentyn ar y App School Comms. Am fwy o fanylion, cysylltwch yn uniongyrchol gyda Miss Bethan Briggs.

GWISG YSGOL

BECHGYN	GENETHOD
<u>TYMOR YR HYDREF A'R GWANWYN</u>	<u>TYMOR YR HYDREF A'R GWANWYN</u>
Crys chwys glas tywyll Crys Polo glas golau Trowsus llwyd	Crys chwys glas tywyll Crys Polo glas golau Sgert llwyd
<u>TYMOR YR HAF</u>	<u>TYMOR YR HAF</u>
siorts llwyd	Ffrog las a gwyn patrwm 'Gingham'
<u>ADDYSG GORFFOROL</u>	
CRYS T GWYN neu LAS SIORTS DU TRAINERS.	

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Dywedir y bydd gan tua 20% o blant anghenion addysgol arbennig ar ryw adeg yn ystod eu gyrfa ysgol. Ar gyfer y mwyafrif mawr o'r plant hyn, bydd yr ysgol prif lif yn cwrdd â'u hanghenion. Oherwydd bod gan blant anghenion dysgu ychwanegol amrywiol, ceir system ar gyfer adnabod a darparu ar gyfer yr anghenion amrywiol hyn.

Mae gan yr ysgol gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynwysiad o fewn yr ysgol sef Ms Ilid Humphreys a phanel o fewn y corff Llywodraethol er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn Ysgol Tregarth, rydym wedi mabwysiadu strategaeth ysgol gyfan ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol gyda'r nôd o:

- Sicrhau dull gweithredu effeithiol ar gyfer adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Gweithio mewn partneriaeth â rhieni pan fo angen ystyried gwneud darpariaeth arbennig.
- Sicrhau bod y plentyn yn cael ei hysbysu o unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch ei addysg ef/hi.
- Darparu addysg wahaniaethol yn ôl yr angen.
- Gweithio gydag asiantaethau perthnasol, arbenigwyr ac ymgynghorwyr er mwyn sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cyfleoedd gorau posibl

POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL-EGWYDDORION AC AMCANION

Egwyddorion

Mae Ysgol Tregarth yn anelu at :-

- sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.
- gydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol ac eraill perthynol i'r plentyn a'i anawsterau.
- weithio'n agos gyda rhieni er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i helpu'r disgybl.
- roi pwyslais ar gyfraniad y disgybl ac yn rhoi pob ystyriaeth i'w farn.
- sicrhau ymateb ysgol gyfan i helpu'r disgybl.

Amcanion

- Sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau a all fod yn llesteirio ei addysg.
- Casglu gwybodaeth ynghyd gan athrawon, rhieni, y disgybl ac eraill i sicrhau y ceir y ddealltwriaeth orau am natur anawsterau'r plentyn.
- Sicrhau y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig.
- Ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.

CYDRADDOLDEB

Mae gan yr ysgol bolisi cydraddoldeb sy'n sicrhau addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalgwyr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol,waeth beth yw eu hanabledd, hil, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu grêd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Rydym yn ceisio datblygu diwylliant o gynhwysiad ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol i deimlo'n falch o'i hunaniaeth, a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Caiff cyflawniad disgyblion ei fonitro, a byddwn yn defnyddio'r data hwn i gefnogi disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio ac ystrydebau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yn Ysgol Tregarth, credwn fod amrywiaeth yn gryfder y dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n addysgu, ac yn dysgu yma, ac yn ymweld â'r ysgol.

Mae'r **Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd** yn ddyletswydd o fewn **Deddf Gwahaniaethu (DDA) 2005** ble mae'n ofynnol i ysgolion gymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod disgyblion, staff a llywodraethwyr, rhieni/gofalgwyr a phobl eraill anabl sy'n defnyddio'r ysgol yn cael eu trin yn gyfartal.

CYFLE CYFARTAL

Mae gan yr Ysgol bolisi cadarn o ran Cyfle Cyfartal ac nid ydym yn gwahaniaethu ar unrhyw sail. Rhoddir cyfle i bawb gymryd rhan yn holl weithgareddau'r Ysgol ac mae copi o'r polisi ar gael i'w weld yn yr Ysgol neu ar ein gwefan.

POLISI AR GYDRADDOLDEB HILIOL AC AMRYFALIAETH DIWYLLIANNOL

Yn ôl y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig 2000) mae Ysgol Tregarth wedi ymrwmo i:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal.
- Hyrwyddo cysylltiadau da rhwng aelodau gwahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol.
- Cael gwared o wahaniaethu anghyfreithlon.

ADDYSG BYWYD A PHERTHASEDD

Roedd Deddf Addysg 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i Gorff Llywodraethol yr ysgol ystyried Addysg Bywyd a Pherthnasedd fel rhan o'r cwricwlwm. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol wedi penderfynu y dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm. Mae datganiad polisi ar gael i chi ei ddarllen yn yr ysgol.

Nôd y polisi yw ychwanegu yn gyfrifol ac yn ddatblygiadol at wybodaeth a phrofiadau plant am eu cyrff a'u perthynas o'r byd o'u cwmpas. Trwy wneud hyn bydd y disgyblion yn gallu delio yn well yn ystod glasoed wrth ddatblygu sgiliau a hunain barch i fod yn hyderus yn eu harddegau.

Amcanion Cyffredinol

- Cyflwyno Addysg Bywyd a Pherthnasoedd fel rhan o bolisi a rhaglen waith Addysg Bersonol a Chynllun Ysgolion Iach.
- Paratoi disgyblion ar gyfer glasoed.
- Datblygu sgiliau a hunain barch i gynorthwyo plant wrth gyrraedd eu harddegau.
- Delio â phryder a chywiro camddealltwriaeth y gall plant eu cael o'r cyfryngau a chyfoedion.
- Datblygu sgiliau i gynorthwyo plant i'w hamddiffyn eu hunain rhag profiadau rhywiol nad ydyn nhw am eu cael.
- Trafod agweddau a gwerthoedd.



Cynllun Ysgolion
Iach Gwynedd

Mae'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (APADGOS) 2008 yn yr adran Iechyd a Lles yn nodi:- Gellir helpu dysgwyr i gynnal eu hiechyd a'u lles emosiynol a chorfforol, cynnal eu twf a'u datblygiad, a gwybod sut i'w diogelu eu hunain. Wrth i blant a phobl ifanc ddatblygu'n rhywiol, mae angen iddynt ddeall newidiadau corfforol, rheoli teimladau rhywiol a mwynhau cydberthnasau diogel, cyfrifol a hapus. Galluogir y dysgwyr hefyd i archwilio'u teimladau, datblygiadau hunanymwybyddiaeth a hunain barch, a datblygu eu hunan-dyb.

Pwrpas ac amcanion Addysg Bywyd a Pherthnasoedd yn yr Ysgol Gynradd:

- Dysgu am gylch bywyd.
- I gadw'r disgyblion yn ddiogel trwy eu helpu i adnabod ac ymateb i ymddygiad annerbyniol gan oedolion a phlant eraill.
- I helpu'r disgyblion ddod yn ymwybodol o wahanol sefyllfaoedd bywyd gan bwysleisio pwysigrwydd moesol.
- I helpu'r disgyblion siarad am faterion sy'n ymwneud â'r corff a pherthnasedd.
- Cychwyn paratoi'r disgyblion am y penderfyniadau y byddant yn eu gwneud yn y dyfodol a'r profiadau maent yn debyg o wynebu.
- I helpu'r disgyblion i addasu i newidiadau yn y teulu.
- I helpu'r disgyblion i ddeall eu teimladau nhw eu hun a theimladau pobl eraill.
- Dysgu'r disgyblion i barchu eu hunain ac eraill.

Hawliau Rhieni i eithrio eu plant: Mae gan rieni'r hawl i eithrio eu plant o'r elfennau hynny nad yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2008. Os oes gan riant/gofalwyr bryder mae croeso iddynt ddod i'r ysgol i drafod gyda'r Pennaeth.



ADDYSG GREFYDDOL / CYD-ADDOLIAD

Mae'r ysgol yn ysgol Eglwys yng Nghymru a sefydlwyd gan Ddogfen Ymddiriedolaeth a chaiff ei rhedeg gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Cafodd ei dynodi yn Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth sy'n golygu bod gan yr Eglwys yng Nghymru gynrychiolwyr ar Fwrdd y Llywodraethwyr. Cyfeirir atynt fel Llywodraethwyr 'Sefydlu' ac maent hwy a'r ysgol yn derbyn cefnogaeth lawn y Bwrdd Addysg Esgobaethol ym Mangor. Mae'r Esgobaeth, yn ei thro, yn cydweithio'n agos â'r 'Gymdeithas Genedlaethol' a sefydlodd yr ysgol ar y cyd â theulu Pennant o Gastell Penrhyn yn 1843.

Mae sawl gwasanaeth a chyfnodau myfyrio ar waith yn yr ysgol yn wythnosol gan gynnwys gwasanaeth ysgol gyfan.

Cyflwynir Addysg Grefyddol yn unol â Maes Llafur Cytunedig yn yr ysgol a chedwir mewn cysylltiad agos ag Eglwys y Plwyf pan ddethlir Gwyliau Cristnogol.

Gellir gwneud trefniadau addas ar gyfer plant mae eu rhieni yn gwrthwynebu iddynt dderbyn addysg grefyddol neu fynychu gwasanaethau crefyddol trwy gysylltu â'r pennaeth yn y lle cyntaf.

CRYNODEB O BOLISIAU A THREFNIADAU'R YSGOL

Gellir cael golwg ar gopïau o holl bolisiau'r Llywodraethwyr yn yr ysgol drwy gysylltu â'r pennaeth i drefnu amser i'w gweld neu drwy edrych ar wefan yr ysgol.

Trafodwch unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch y cwricwlwm gyda'r pennaeth.

DATGANIAD POLISI AR GODI TAL AM WEITHGAREDDAU ADDYSGOL

Yn gyffredinol, **ni** chodir tâl am weithgareddau addysgol – yn unol â gofynion Deddf Diwygio Addysg 1988. Mae Corff Llywodraethol Ysgol Tregarth wedi penderfynu:

- 1. codi tâl** am weithgareddau a gynhelir tu allan i oriau ysgol nad ydynt yn rhan o weithgareddau sy'n ofynnol eu cynnal yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol neu addysg grefyddol statudol.
- 2. codi tâl** am wersi offerynnol unigol.
- 3. peidio codi tâl** am lyfrau, deunyddiau, offer neu gludiant sydd ei angen ar gyfer gweithgareddau addysgol onid yw rhieni wedi mynegi dymuniad ymlaen llaw i brynu'r cynnyrch.
- 4. codi tâl** am yr holl gostau bwyd a llety yn ystod ymweliadau preswyl ac eithrio plant sydd â hawl i dderbyn ad-daliad statudol.
- 5. gofyn** i rieni wneud cyfraniad gwirfoddol tuag at gost unrhyw weithgareddau ble nad oes tâl gorfodol. Os yw cyfanswm y cyfraniadau a wneir yn annigonol, gall gweithgareddau o'r fath gael eu dileu neu eu gohirio. Ni waherddir unrhyw blentyn rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath naill ar sail anabled neu oherwydd gwrthod gwneud cyfraniadau gwirfoddol.
- 6. hysbysu** rhieni cyn ymweliad, taith, perfformiad ayb. yn unol â'r Polisi Ymweliadau Addysgol.
- 7. dirprwyo** i'r pennaeth yr hawl i benderfynu i ba raddau, os o gwbl, y defnyddir arian o gronfa'r ysgol neu ffynhonnell arall i dalu cyfran o gost y gweithgareddau.
- 8. dirprwyo** i'r pennaeth yr hawl i benderfynu ar achosion a all godi wrth weithredu'r polisi hwn. Trwy ddilyn y polisi hwn, y gobaith yw y gellir rhannu'r baich ariannol a osodir ar rieni mewn ffordd deg, tra'n sicrhau ar yr un pryd y caiff pob plentyn gyfle i elwa o drefniadau o'r fath.

PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Trwy gydweithio agos ag asiantaethau eraill a'r Awdurdod Lleol cefnogir disgyblion sy'n derbyn gofal yn effeithiol yn yr ysgol. Y cydlynnydd ADY a Chynhwysiant sydd â chyfrifoldeb am sicrhau effeithiolrwydd y gefnogaeth y maent yn ei derbyn a hyrwyddo eu cyflawniad. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i sicrhau cefnogaeth a chymorth i'r disgyblion hyn a'u gofalu. Yr aelod dynodedig sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol yw Ms Ildid Humphreys.



ADDYSG GORFFOROL

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd sy'n symbyliad ac yn ddiogel i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol wrth ddatblygu sgiliau corfforol a chadw'n iach. Darperir gweithgareddau sy'n rhoi mwynhâd i'r disgyblion wrth ddiwallu eu hanghenion creadigol a ffitrwydd. Byddwn yn dysgu a darparu cyfle i ymarfer a gwella ar sgiliau sy'n berthnasol i'r weithgaredd.

Ceisir hybu hyder trwy weithgaredd corfforol a chreu ymwybyddiaeth a phwysigrwydd iechyd wrth ymarfer. Mae dewisiadau bwyd a dysgu am y corff yn elfennau pwysig hefyd.

Bwriadwn i Addysg Gorfforol fod yn fwynhâd fel bydd y disgyblion yn ymddiddori ac yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amrywiol.

Mae'r ysgol yn hyfforddi'r disgyblion mewn amryw o weithgareddau, gan gynnwys: dawns, cyfeiriannu, datrys problemau, teithiau, gymnasteg, tenis, criced, pel-rwyd, pel-droed, hoci, rygbi, wal fowldro ac athletau a nofio.

Rydym yn mynychu amrywiaeth o gystadlaethau a drefnir gan Urdd Gobaith Cymru yn rheolaidd mewn gwahanol chwaraeon rhwng ysgolion.

Mae Addysg Gorfforol/Nofio yn bwnc statudol ac mae'r Llywodraeth yn pwysleisio ei bwysigrwydd, ynghyd ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol, fel rhan o Addysg Gyflawn disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ei achredu gyda Marc Safon Addysg Gorfforol gyda chanmoliaeth uchel.



Plant ag Anghenion Corfforol:

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i groesawu pob plentyn, sicrhau eu diogelwch, eu galluogi i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol a chael mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gennym Gynllun Hygyrchedd a Chynllun Cydraddoldeb i bobl anabl.

ALLGWICWLAIDD/ CLYBIAU

Mae gan yr ysgol raglen gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys cyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau, perfformio mewn cyngherddau, rhaglen chwaraeon eang a Chlybiau amrywiol.

Clwb Brecwast

Mae'r ysgol wedi sefydlu Clwb Brecwast dan amodau Llywodraeth y Cynulliad. Golyga hyn bod brecwast ar gael bob bore ysgol i'r disgyblion. Bydd disgwyl i'r disgyblion gyrraedd yr ysgol rhwng 8.00 a 8.30 yn brydlon.

Bydd y brecwast yn cynnwys grawnfwyd a llefrith, ffrwythau neu sudd a thafell o dost.

Os yr ydych yn dymuno i'ch plentyn fynychu'r clwb, bydd rhai archebu lle iddynt ar wefan Cyngor Gwynedd.

Clybiau Cinio

Cynhelir clybiau amrywiol yn ystod amseroedd cinio e.e Clwb Arwyddo BSL, Clwb Celf, Clwb Canu/Côr a chlybiau chwaraeon amrywiol.

Clwb Hwyl Ardal Tregarth- Clwb ar ôl Ysgol

Cynhelir Clwb Hwyl Ardal Tregarth yn ddyddiol rhwng 3:30 yh- 5:30 yh. Mae'r clwb ar ôl ysgol yn gofalu am hyd at 24 o blant rhwng 3-11 oed. Mae'r clwb yn gofrestrdig gyda AGGCC. Manylion cofrestru gan Miss Bethan Briggs yn yr ysgol. Rhif ffon cyswllt y clwb: **07519723590**



POLISIBWLIO

Mae hawl sylfaenol gan holl aelodau'r ysgol gael eu parchu gan bawb ac i brofi bywyd hapus yn yr ysgol.

Mae unrhyw fath o fwlio yn hollol annerbyniol. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn ac yn drylwyr i bob achos o fwlio. Gwnaiff yr ysgol pob ymdrech i sicrhau nad yw bwlio ynddigwydd.

Mae Cyngor yr Ysgol yn cyfarfod yn gyson gyda'r Pennaeth ac trafod unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu hawliau fel unigolion. Dylid cysylltu â'r ysgol ar unwaith pan fo rhieni yn pryderi am achosion o fwlio.

IECHYD A DIOGELWCH

Cymerir pob gofal posibl am ddiogelwch y plant tra byddant yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, yna, os bydd angen caiff y plentyn ei gludo i Adran Ddamweiniau Ysbyty Gwynedd.

Ni fydd staff yr ysgol yn gyfrifol am rhoi moddion i unrhyw blentyn.

Dylai disgyblion barchu rheolau Iechyd a Diogelwch yr ysgol bob amser.

Ni chaniateir i blentyn adael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd. Os bydd newid yn y modd y bydd plentyn yn mynd adref, gofynnir i'r rhieni ddweud wrth y Pennaeth neu athro'r plentyn o flaen llaw am y trefniadau a wnaed.

Mae'r disgyblion yn gyfrifol am bob eiddo personol. Ni ddylid dod â phethau gwerthfawr i'r ysgol. Sicrhewch fod enw neu label ar pob dilledyn ac eiddo personol.

Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r brif fynedfa cyn cael mynediad i'r ysgol. Bydd disgwyl i bob ymwelydd ddilyn protocol arwyddo i fewn yr ysgol. Os fydd ymwelwyr yn ymddwyn yn anaddas tuag at ddisgybl neu aelod o staff yna gofynnir iddynt adael tir yr ysgol ar unwaith a chysylltir â'r heddlu pan fo hynny'n briodol.

Mae gan yr ysgol system larwm lladron a cheir 'ymarferion tân' yn dymhorol.

Mae'r ysgol yn arolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer disgyblion a staff yn gyson.

AMDDIFFYN PLANT

Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, i gyfeirio'r pryder at sylw aelod dynodedig Amddiffyn plant yr ysgol.

Personau cyfrifol am Amddiffyn Plant:

Mrs Lliwen Haf Jones B.Add - **Pennaeth**

Mrs Caryl Evans - **Pennaeth Cynorthywol**

Ms Ildid Humphreys - **Cydlynnydd ADY a Chynhwysiad**

Mrs Wendy Lemon / Rosemary Williams - **Corff Llywodraethol**

Mrs Delyth Griffiths - **Swyddog Diogelu Plant y Sir: 01286 677347**

Cyswllt Cartref

Ni all yr ysgol hon lwyddo heb gefnogaeth y rhieni. Yr ydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r ysgol yn ei gwaith ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus.

Mae hon yn ysgol "agored", h.y. mae croeso i rieni bob amser.

Yn ogystal â chael ymweld yn unigol, caiff rhieni hefyd dri chyfle ffurfiol yn ystod y flwyddyn i ymweld â'r ysgol. Byddwn yn cynnal tair Noson Agored yn flynyddol. Yn ychwanegol at y Nosweithiau Agored hyn, fel rheol byddwn yn cynnal Cyngerdd neu Wasanaeth Carolau adeg y Nadolig, Gwasanaethau Dosbarth yn dymhorol, Cyngerdd Dydd Gwyl Dewi, Nosweithiau cwricwlaidd amrywiol a Mabolgampau yn nhymor yr Haf. Anogir chi i ymuno yn yr holl weithgareddau hyn, yn ogystal â'r gweithgareddau a drefnir gan Gymdeithas Rieni'r Ysgol.

Mae'n bwysig dros ben bod rhieni'n sylweddoli gwerth perthynas onest ac agored rhyngddynt hwy a'r ysgol. Cydweithiwn fel un tîm effeithiol er mwyn darparu'r addysg orau bosibl i'n plant. Mae'r bartneriaeth yn hanfodol i lwyddiant ein nôd; mae'n dibynnu ar gysylltiadau da a chydweithio rhwng y cartref a'r ysgol bob amser.

Mae tren gwaith cartref pob dosbarth ychydig yn wahanol. Bydd yr athrawon yn llythyru rhieni ar ddecharau'r flwyddyn addysgol i ebonio'r drefn.

POLISI IAITH

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog ym mhob un o'i ysgolion ac hefyd yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach. Y nod yw i alluogi disgyblion i siarad y ddwy iaith yn hyderus fel eu bod yn dod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Mae Ysgol Tregarth wedi ei chategoreiddio fel ysgol dwyieithiog.

Iaith yr Ysgol - Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

Y Cyfnod Sylfaen-Trochir y disgyblion yn y Gymraeg a byddant yn derbyn eu haddysg yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe gyflwynir Saesneg yn anffurfiol erbyn diwedd blwyddyn 2.

Cyfnod allweddol 2- Mae pob disgybl yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y ddau gyfnod allweddol a hynny yn drawsgwricwlaidd. Cymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu. Caiff Saesneg ei gyflwyno yn ffurfiol fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2 a chaiff ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae'n bosibl y defnyddir Saesneg hefyd ar gyfer rhai agweddau ar rai pynciau.

Y canlyniadau- Fel rheol, disgwylir y bydd disgyblion, waeth beth yw iaith y cartref, yn gallu trosglwyddo'n hawdd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac y byddant wedi cyrraedd, yn erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, yr un safon yn Saesneg â disgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg.



Y SIARTER IAITH GYMRAEG



Mae'r ysgol wedi ymrwmo i nodau ac amcanion y Siarter Iaith ac wedi ei ddilysu yn **Ysgol AUR**.

Mae'r Siarter Iaith yn rhan annatod o fywyd Ysgol Tregarth ac mae ymroddiad pob un sydd yn ymwneud â'r ysgol yn amhrisiadwy er mwyn ymateb i ofynion y Siarter. Gweledigaeth yr ysgol yw i annog a sicrhau fod pob disgybl yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n ddinasyddion dwyieithog hyderus, sy'n ymfalchïo yn eu diwylliant Cymreig ac yn eu cenedligrwydd.

Gweledigaeth y Cyngor Ysgol-Siarad Cymraeg, wrth weithio, wrth chwarae, Bob amser! Mae Cymraeg yn Cŵl!

GWEITHDREFN CWYNO

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi darparu arweiniad i Lywodraethwyr ar ddelio gyda chwynion. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu isod.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaeth gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol. Gellir trefnu amser i drafod unrhyw gŵyn gyda'r pennaeth trwy gysylltu â'r ysgol.

Mae'r Llywodraethwyr wedi sefydlu is-banel i ymdrin ag unrhyw gŵyn. Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth.

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, o dan adran 23 Deddf Addysg 1988, wedi sefydlu gweithdrefn i ystyried cwynion ynghylch sut mae Cyrff Llywodraethol ysgolion a'r Awdurdodau Addysg yn gweithredu mewn perthynas â'r cwricwlwm ysgolion a materion perthnasol eraill. Ceir eglurhad o'r weithdrefn hon mewn dogfen ddwyieithog sydd ar gael yn yr ysgol neu ar wefan yr ysgol.

Diben y weithdrefn hon yw darparu dull o ddatrys cwynion a wnaed yn erbyn y Corff Llywodraethol neu aelodau o staff yr ysgol, neu gwynion ynghylch materion mwy cyffredinol o ran natur megis rheolaeth yr ysgol, ei gwricwlwm, gweinyddiad, polisiâu neu weithdrefnau. Gobaith y Llywodraethwyr yw bod holl aelodau cymuned yr ysgol yn derbyn eglurhad o:-

- Egwyddorion y weithdrefn a phwy sy'n gyfrifol am gyflawni pob rhan ohoni.
- Y gweithdrefnau i'w dilyn.
- Graddfeydd amser i'w dilyn a sut caiff cwynion eu cofnodi a'u monitro.

Egwyddorion

Y nod yw i'r weithdrefn hon fod yn:-

- Deg.
- Cael ei defnyddio gan ddangos cysondeb.
- Arwain at allu datrys cwynion mor gyflym ac effeithiol a bo modd.

LLYWODRAETHWYR YR YSGOL

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol, yn ôl y gyfraith, am reolaeth gyffredinol yr ysgol. Maent yn gyfrifol am sicrhau addysg o ansawdd uchel yn yr ysgol trwy gydweithio â'r Pennaeth a'r staff i lunio strategaethau er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial. Diben y corff Llywodraethol yw cynghori, darparu gwybodaeth a chefnogi'r Pennaeth a staff yr ysgol.

CRYNODEB O GANLLAWIAU YNGHYLCH Y DDYLETSWYDD I GYNNAL CYFARFODYDD GYDA RHINI Crynodeb yn unig yw'r canllawiau hyn. Dylid cyfeirio at Ganllawiau Llywodraeth Cymru. Dogfen ganllawiau rhif: 104/2013

[http://www.governorswales.org.uk/media/files/documents/2013509/Parent meeting circular welsh.pdf](http://www.governorswales.org.uk/media/files/documents/2013509/Parent%20meeting%20circular%20welsh.pdf)

- Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013 (adran 94 (13)) yn disodli'r gofyniad blaenorol i Gorff Llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni.
- Daw'r canllawiau i rym ar 4ydd o Fai 2013.
- Mae'r Ddeddf yn caniatáu i rieni ofyn am 3 chyfarfod mewn blwyddyn ysgol gyda chorff llywodraethu ysgol eu plentyn.

Gofynion Statudol

Rhaid i'r ddeiseb yn galw am gyfarfod cynnwys llofnodion y nifer gofynnol o rieni disgyblion cofrestredig:

- rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig neu
- 30 o ddisgyblion cofrestredig pa un bynnag sydd leiaf. Mewn Ysgolion o dros 300 o ddisgyblion byddai'n haws i rieni fodloni'r gofyniad i gael 30 o lofnodion.
- e.e., efallai bydd dau riant yn lofnodi'r ddeiseb ond dim ond un plentyn sydd ganddynt yn yr ysgol. Mewn achos o'r fath bydd dau lofnod yn cyfrif fel un "disgybl cofrestredig".
- e.e., efallai y bydd un riant yn lofnodi'r ddeiseb ond bydd ganddo dri phlentyn yn yr ysgol. Golyga hyn y bydd lofnod y riant yn cyfrif fel tri "disgybl cofrestredig".
- Disgwylir y bydd modd i rieni gael gwybodaeth gan swyddfa'r ysgol ynghylch faint o ddisgyblion cofrestredig sydd ar gofrestr ysgol.

Rhaid mai amcan y cyfarfod yw trafod materion yn ymwneud â'r ysgol:

- Rhaid mai amcan y cyfarfod yw trafod mater sy'n ymwneud â'r ysgol.
- Rhaid peidio ag ystyried cyfarfod fel ffordd arall o wneud cwyn.
- Rhaid peidio ag ymdrin â materion personol, unigol sy'n ymwneud â phlentyn neu aelod o staff. Byddai materion o'r fath yn rhywbeth cyfrinachol nad ydynt yn addas i'w trafod yn agored.
- Gellir trafod mater neu bryder un dosbarth yn unig - cyn belled â bod y nifer trothwy ar gyfer cyflwyno'r ddeiseb wedi ei fodloni - nid oes newid i'r trothwy.
- Pe byddai panel o'r llywodraethwyr yn gwrthod cais i gynnal cyfarfod ar sail nad amcan y cyfarfod yw trafod materion yn ymwneud â'r ysgol, gall rhieni anghytuno a defnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

Ni chaiff mwyn na thri cyfarfod eu cynnal yn ystod y flwyddyn ysgol yn sgil deiseb gan rieni:

- Golyga blwyddyn ysgol o ddechrau tymor yr hydref ym Medi un flwyddyn i ddiwedd tymor yr haf yng Ngorffennaf y flwyddyn addysgol honno.

Rhaid sicrhau bod digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol er mwyn gallu cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod:

- Mae'r ddeddf yn darparu mai dim ond os oes digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i allu cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod y gellir galw cyfarfod.
- Nid yw penwythnosau, gwyliau banc/cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau HMS yn cyfrif tua at y cyfnod 25 diwrnod.

Y broses o gyflwyno deiseb

Er mwyn i Gorff Lywodraethu allu bod yn siŵr bod deiseb ddilys wedi'i chyflwyno, disgwylir i'r ddeiseb:

- gynnwys datganiad bod rhieni yn arfer eu hawl i wneud cais am gyfarfod gyda'r corff llywodraethu;
- roi crynodeb byr o'r materion i'w trafod a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod;

- nodi pa rif yw'r cyfarfod hwnnw yn y flwyddyn ysgol honno, oherwydd mai 3 chyfarfod yn unig y gellir eu cynnal mewn blwyddyn ysgol;
- nodi'n glir ar frig y ddeiseb grynodedb o'r materion i'w trafod gyda llofnodion y rhieni oddi tanynt.

Pan ddaw deiseb i law

Rhaid i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod os:

- daw deiseb i law gan rieni
- yw'r corff llywodraethu yn fodlon bod y gofynion statudol wedi eu bodloni.
- Disgwylir i'r ddeiseb ddod i law'r clerc llywodraethu neu gadeirydd y corff llywodraethu ar gyfer ei hystyried gan y corff llywodraethu, Byddai'n dderbyniol hefyd cyflwyno deiseb at y corff llywodraethu "drwy law" y pennaeth.

Sut dylai corff llywodraethu fynd ati i roi rhybudd am gyfarfod?

Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig sy'n cynnwys dyddiad, lle ac amser

- y cyfarfod ynghyd a'r materion sydd i'w trafod, ar bob hysbysfwrdd ysgol ac mewn lleoedd amlwg ac wrth ymyl pob allanfa o dir yr ysgol. Yn ogystal â hynny dylid anfon llythyr at rieni'r holl ddisgyblion sy'n gofrestredig. Gellir ei anfon drwy law'r disgybl neu'n electronig.
- Dylai'r cyfarfod fod yn agored i'r pennaeth ac i unigolion eraill mae'r corff llywodraethu am eu gwahodd.
- Ni cheir codi tâl am ddarparu gwybodaeth i unrhyw un mewn perthynas â'r cyfarfod. Dylid cynnal cyfarfod cyn pen 25 diwrnod ar ôl i'r ddeiseb ddod i law.
- Dylid rhoi rhybudd o 10 diwrnod ysgol lawn.

Cynnal Cyfarfod

Awgrymir y dylai ysgol nodi gweithdrefn sy'n rhoi sylw i'r materion isod :

- pwy fydd yn cadeirio'r cyfarfod
- y cworwm gofynnol ar gyfer y rhieni a'r llywodraethwyr (disgwylir i'r cworwm ar gyfer rhieni fod yn gyfran o nifer y rhieni sydd wedi llofnodi'r ddeiseb)
- pwy fydd yn cymryd cofnodion (yn ddelfrydol y clerc),
- beth fydd y drefn i rieni gael siarad yn y cyfarfod,
- yr wybodaeth y bydd angen ei hanfon at bob llywodraethwr cyn y cyfarfod,
- i'w cymryd yn dilyn cyfarfod.

Rhoi gwybod i rieni am eu hawl i gyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod o dan Adran 94 o'r ddeddf.

- Disgwylir i gorff llywodraethu roi gwybod i rieni am eu hawl i gyflwyno deiseb i ofyn am gyfarfod.
- Disgwylir i'r ysgol anfon llythyr at y rhieni erbyn diwedd mis Hydref ym mhob blwyddyn ysgol. Gellir defnyddio'r enghraifft ynghlwm.
- Disgwylir i gyrff llywodraethu barhau i gyfathrebu ac ymwneud â rhieni gydol y flwyddyn ysgol
- Disgwylir i ysgol roi gwybod am yr hawl i gyflwyno deiseb i ofyn am gyfarfod yn y Llawlyfr Ysgol ac yn yr Adroddiad Blyneddol i rieni.

Cadeirydd y Corff Llywodraethol: Mr Bleddyn Jones

Is gadeirydd: Mr Hywel Parry

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol:

Cadeirydd y Llywodraethwyr,

Ysgol Tregarth,
Tregarth,
Bangor,
Gwynedd.
LL57 4PG



Ysgol Tregarth



Hapus yn ein Dysgu

YSGOL TREGARTH

AELODAETH O'R CORFF LLYWODRAETHOL / MEMBERSHIP OF THE GOVERNING BODY

BLWYDDYN ADDYSGOL 2021-2022 ACADEMIC YEAR

Llywodraethwr	Swyddogaeth	Dyddiad Cychwyn
Edward Bleddyn Jones	Cadeirydd / Chair Cymunedol/Community	01/10/2018
Hywel Parry	Is-Gadeirydd /Vice-Chair Awdurdod Addysg /LEA	01/09/2017
Wendy Lemon	Eglwys / Church	01/11/2019
Rosemary Williams	Eglwys / Church	01/10/2018
--	Eglwys / Church	--
Rhian Williams	Rhiant / Parent	01/11/2021
Bethan Lloyd	Rhiant / Parent	01/11/2021
Craig Rockliff	Awdurdod Addysg / LEA	01/09/2017
Lliwen Morris	Rhiant / Parent	01/11/2021
Cyng Dafydd Owen	Awdurdod Addysg /LEA	01/09/2018
Michelle Hughes	Rhiant / Parent	01/11/2019
Angharad Williams	Cymunedol/Community	01/03/2021
--	Staff Ategol / Ancillary Staff	--
Caryl Evans	Staff / Staff	01/09/2020
Lliwen Jones	Pennaeth Headteacher	Ebrill 2017

MANYLION CLERC Y LLYWODRAETHWYR / CLERK OF GOVERNORS DETAILS

ENW / NAME	CYFEIRIAD / ADDRESS	FFON / TEL NO	E-BOST / E-MAIL
Wendy Roberts	1 Cae Glas, Ffordd Hermon , Mynydd Llandygai	01248 602016	caeglas@gmail.com

